Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC22: Asesiad twristiaeth Sir Conwy

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Mawrth 2020**

**This document is also available in English.**

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw’n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o’r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau’r drwydded hon i’r Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cysylltwch â ni**
Cynllunio Strategol a Chymunedau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Coed Pella
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7AZ
E-bost: cdll.ldp@conwy.gov.uk
Rhif Ffôn: (01492) 575461

# Cynnwys

**Cynnwys** ........ **4**
**Adran 1: Cyflwyniad** ........ **5**
Pam bod twristiaeth yn bwysig? ........ 5
Ffynonellau data a methodoleg ........ 6
**Adran 2: Tueddiadau twristiaeth** ........ **8**
Niferoedd ymwelwyr ........ 8
Darparwyr llety ........ 9
Tueddiadau tymhorol ........ 11
Lefelau deiliadaeth ........ 12
**Adran 3: Atyniadau allweddol** ........ **17**
Atyniadau allweddol ........ 17
Sefydliadau bwyd ........ 18
**Adran 4: Llety** ........ **20**
Darparwyr llety yn ôl Is-Ardal Strategol ........ 20
**Adran 5: Proffil ymwelwyr** ........ **23**
Ffynhonnell ddata ........ 23
O le mae'r ymwelwyr yn dod? ........ 23
Beth sy'n denu pobl i'r ardal? ........ 25
Proffil ymwelwyr syml ........ 26
Adborth gan ymwelwyr ........ 28
**Adran 5: Dyfodol twristiaeth?** ........ **29**

## Adran 1: Cyflwyniad

### Pam bod twristiaeth yn bwysig?

Gyda'r amgylchedd naturiol eithriadol a threftadaeth adeiledig a diwylliannol cryf, nid oes unrhyw syndod bod twristiaeth yn sector sylweddol yn economi leol Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r mynyddoedd, arfordiroedd, traethau, afonydd a llynnoedd yn darparu cefndir arbennig i gefnogi ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cerdded, chwaraeon dŵr, mynydda, pysgota, marchogaeth a beicio. Mae'r ardal yn cynnwys safle Treftadaeth y Byd yng Nghastell Conwy, treftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol gyfoethog sy'n ymestyn yn ôl i Oes yr Haearn, ac yn elwa o hunaniaeth ddiwylliannol hynod.

***Tabl 1: Data STEAM ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2018***
Ffynhonnell: STEAM 2018

| Nifer yr ymwelwyr (M) | Effaith economaidd (£M) | Swyddi a gefnogir |
|---|---|---|
| 9.39 | 904.37 | 11,800 |

Mae'r data a ddarparwyd drwy STEAM yn awgrymu bod mwy na 9 Miliwn o bobl wedi ymweld â'r sir yn 2018 gydag effaith economaidd o fwy na £900 Miliwn sy'n cefnogi bron 12,000 o swyddi naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gydag amcangyfrif o gyfanswm o 47,000 o swyddi Cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE)[1] yn y sir, mae'r cyfraniad gan dwristiaeth yn sylweddol. Nid yw'r tabl canlynol a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwahanu twristiaeth yn benodol, ond mae'n dangos pwysigrwydd busnes sy'n gysylltiedig â thwristiaeth fel Llety, Bwyd a Manwerthu sy'n cyfrif am 27% o'r galw am lafur.

***Tabl 2: Galw am lafur – cyflogaeth*, 2018 (seiliedig ar weithle)***
Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol (NOMIS)

| | BS Conwy | | Cymru | Prydain Fawr |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | % | % |
| **Swyddi PAYE** | 50,000 | | | |
| Cyfanswm gweithwyr | 46,000 | 92.0 | 93.5 | 96.6 |
| Perchnogion sy'n gweithio | 4,000 | 8.5 | 6.5 | 3.4 |
| | | | | Cyflogaeth yn ôl diwydiant |
| **Amaethyddiaeth** | 2,500 | 4.9 | 4.2 | 1.6 |
| **Cynhyrchu** | 1,800 | 3.5 | 12.3 | 9.2 |
| **Adeiladu** | 3,000 | 5.9 | 5.2 | 4.8 |
| **Gwasanaethau** | 43,500 | 85.7 | 78.3 | 84.3 |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 6,700 | 13.2 | 12.0 | 13.3 |
| Gwasanaethau Llety a Bwyd | 7,000 | 13.8 | 7.9 | 7.5 |

[1] Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol, (2017 seiliedig yn y gweithle)


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd | 17,500 | 34.5 | 31.0 | 25.5 |
| Gwasanaethau Eraill | 12,300 | 24.2 | 27.5 | 38.0 |

* Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amaethyddiaeth fferm (is-ddosbarth SIC 01000)

## Ffynonellau data a methodoleg

Lle bynnag bo'n bosibl, mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'i rannu'n bum is-faes strategol. Mae'r rhain wedi'u dewis er mwyn alinio â daearyddiaeth a gydnabyddir ac a ddefnyddir at ddibenion eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r map isod yn dangos yr is-ardaloedd a ffiniau Cyngor Cymuned.

***Map 1: Yn dangos sut mae sir Conwy wedi'i rannu'n is-ardaloedd***




© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023380
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available;
You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.
Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

**STEAM**

Mae'r niferoedd twristiaeth a'r data effaith economaidd yn seiliedig ar Fonitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (cynhyrchwyd fel Scottish Tourism Economic Activity Monitor yn yr Alban), neu 'STEAM' yn fyr. Dyluniwyd STEAM yng Nghanada ym 1981, ac ers 1989 mae wedi'i ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i fonitro tueddiadau mewn twristiaeth.

Mae STEAM yn broses o fodelu effaith twristiaeth ar yr economi sy'n trin mesur twristiaeth o'r gwaelod i fyny, trwy ei ddefnydd o ddata ochr cyflenwi lleol a chasglu data am berfformiad twristiaeth ac o arolygon ymwelwyr.

Mae STEAM yn mesur effaith economaidd leol twristiaeth, gan ymwelwyr sy'n aros dros nos ac ymwelwyr dydd, trwy ddadansoddi a defnyddio amrywiaeth o fewnbwn gan gynnwys nifer atyniadau i ymwelwyr, nifer gwelyau mewn llety i dwristiaid, presenoldeb mewn digwyddiadau, lefelau deiliadaeth, tariffau llety, ffactorau macroeconomaidd, lefelau gwariant ymwelwyr, lefelau defnydd cludiant a lluosogwyr economaidd sy'n benodol i dwristiaeth.

**Cronfa ddata llety gwyliau Conwy**

Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mawrth 2019, gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gomisiynu Cyngor Gwynedd i gynhyrchu cronfa ddata o'r holl lety gwyliau a darparwyr yn y sir, gan weithio gyda Croeso Cymru. Fe gasglwyd y gronfa ddata o amrywiaeth o ffynonellau a chroes-gyfeiriwyd er mwyn sicrhau cywirdeb. Mae ffynonellau data yn cynnwys:

- Ardrethi busnes
- Trwyddedau ar gyfer safleoedd carafán a gwersylla
- Trwyddedau ar gyfer eiddo bwyd
- Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau gosod llety gwyliau lleol
- Arolygon a anfonwyd i'r holl weithredwyr lleol
- Nifer y bobl sydd wedi chwilio ar y rhyngrwyd ar wefannau twristiaeth adnabyddus
- Gwybodaeth leol staff Conwy sy'n gweithio yn y sector twristiaeth / canolfannau croeso

**Arolygon Ymwelwyr**

Yn ystod y tymor gwyliau yn 2015, 2016 a 2017, cynhaliodd staff twristiaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy arolygon wyneb i wyneb gydag ymwelwyr yn nifer o'r cyrchfannau twristiaeth allweddol yn y sir. Mae canlyniadau'r arolygon hyn wedi'u casglu a'u defnyddio i lywio'r papur cefndir hwn.

**Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru**

Mae arolwg deiliadaeth wedi'i gynnal yn barhaus ymhlith darparwyr llety gwesty wedi'i raddio ers 1972 i fonitro lefelau galw am ystafelloedd a gwelyau mewn gwestai yng Nghymru. Er mwyn cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb yr UE ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn ym 1997 i gwmpasu pob llety â gwasanaeth, gan gynnwys tai llety, sefydliadau gwely a brecwast a llety â gwasanaeth heb ei raddio. Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar arolwg 2017 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018. Caiff yr arolwg nesaf ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Tachwedd 2019.

## Adran 2: Tueddiadau twristiaeth


### Niferoedd ymwelwyr

Mae data STEAM yn amcangyfrif bod 9.4 Miliwn o bobl wedi ymweld â Sir Conwy yn 2018, ac o'r rheini, roedd 6.9 Miliwn yn ymwelwyr dydd a 2.5 miliwn yn ymwelwyr a oedd yn aros dros nos. Dros amser, amcangyfrifir bod nifer yr ymwelwyr dydd wedi bod yn cynyddu tra bod nifer yr ymwelwyr a oedd yn aros dros nos wedi aros yn eithaf cyson.

***Tabl 3: Nifer yr ymwelwyr â Bwrdeistref Sirol Conwy rhwng 2007 a 2018***
Ffynhonnell: STEAM 2018

| Blwyddyn | Ymwelwyr a oedd yn aros dros nos (M) | Ymwelwyr dydd (M) | Pob un (M) |
|---|---|---|---|
| **2007** | 2.5 | 5.6 | 8.1 |
| **2008** | 2.5 | 5.4 | 7.9 |
| **2009** | 2.4 | 6.2 | 8.6 |
| **2010** | 2.4 | 6.0 | 8.4 |
| **2011** | 2.5 | 5.6 | 8.1 |
| **2012** | 2.4 | 5.6 | 8.0 |
| **2013** | 2.5 | 6.0 | 8.5 |
| **2014** | 2.5 | 6.3 | 8.7 |
| **2015** | 2.5 | 6.7 | 9.2 |
| **2016** | 2.4 | 6.7 | 9.2 |
| **2017** | 2.5 | 6.8 | 9.3 |
| **2018** | 2.5 | 6.9 | 9.4 |

***Siart 1: Nifer yr ymwelwyr a oedd yn aros dros nos ac ymwelwyr dydd â Bwrdeistref Sirol Conwy rhwng 2007 a 2018***
Ffynhonnell: STEAM 2018




## Darparwyr llety

Mae 1,300 o wahanol ddarparwyr llety wedi'u nodi ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae mwy na 60% o'r darparwyr yn cynnig llety hunanddarpar, yn benodol llety gwyliau trwy asiantaethau llety gwyliau rhanbarthol sefydledig neu drwy wefannau fel Air BnB. Mae mwy nag 80% o'r gwelyau yn y sir ar safleoedd carafán a gwersylla, ac mae dau draean o'r rhain yn Is-ardal Strategol y Dwyrain yn nhrefi Llanddulas, Towyn a Bae Cinmel.


***Tabl 4: Dangos nifer y darparwyr llety yn ôl math a nifer y gwelyau***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019

| | Â gwasanaeth | Hunanddarpar | Carafán a Gwersylla | Byncws | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparwyr** | 307 | 795 | 191 | 16 | 1,309 |
| **Gwelyau** | 8,778 | 4,148 | 60,300 | 470 | 73,696 |

***Siart 2: Dangos y math o ddarparwyr llety ym Mwrdeistref Sirol Conwy***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019




***Siart 3: Dangos nifer y gwelyau sydd ar gael ym mhob math o lety***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019




Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae natur y cyflenwad llety wedi newid, gyda gostyngiad o ran llety â gwasanaeth (yn benodol sefydliadau llai) a chynnydd o ran darparwyr llety hunanddarpar (yn benodol bythynnod gwyliau). Yn gyffredinol mae nifer y darparwyr wedi cynyddu ond mae nifer y gwelyau sydd ar gael wedi gostwng wrth i lety mwy â gwasanaeth gau a llety gwyliau llai agor. Mae rhai o'r safleoedd carafanau sefydlog wedi lleihau nifer eu lleiniau a'u gwelyau er mwyn gwella ansawdd eu safleoedd (rhagor o le rhwng lleiniau). O ganlyniad i'r tueddiadau hyn, mae'r sir wedi gweld twf o ran niferoedd ymwelwyr dydd nad yw wedi mynd law yn llaw â thwf o ran nifer ymwelwyr a oedd yn aros dros nos. Mae nifer y gwelyau sydd ar gael wedi gostwng.

***Tabl 5: Newid o ran darparwyr llety gwyliau dros y 10 mlynedd diwethaf***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019

| | Newid mewn 10 mlynedd |
|---|---|
| **Cyfanswm Llety â Gwasanaeth** | **-92** |
| Gwestai 50+ ystafell | -4 |
| Gwestai 10-50 ystafell | -36 |
| Gwestai <10 ystafell/eraill | -52 |
| **Cyfanswm Llety heb Wasanaeth** | **262** |
| Hunanddarpar | 255 |
| Carafanau sefydlog/chalets | -1 |
| Carafanau teithiol/gwersylla | 8 |

Mae gwefannau fel Air BnB yn newid natur y llety sydd ar gael mewn lleoedd fel Sir Conwy. Mae'r siart canlynol yn dangos sut mae nifer y llety sydd wedi'u rhestru ar Air BnB wedi cynyddu dros y 3 blynedd diwethaf, gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Awst 2019 gyda bron 1,600 o eiddo wedi'u rhestru. Mae gwaith ymchwil yn parhau i nodi pa gyfran o'r llety hyn sydd eisoes wedi'u cynnwys ar gronfa ddata llety CBSC ac sydd wedi'u cyfrif yn y data STEAM a pha gyfran nad ydynt wedi'u cynnwys.


***Siart 4: Dangos nifer y llety sydd wedi'u rhestru ar wefan Air BnB yn Sir Conwy***
Ffynhonnell: Air DNA Medi 2019



## Tueddiadau tymhorol


Mae’r fasnach dwristiaeth yn dangos tueddiadau tymhorol clir sy’n dangos uchafbwynt sylweddol ym mis Awst ac maent yn isel iawn ym mis Tachwedd, Rhagfyr ac Ionawr a bryd hynny mae nifer o’r darparwyr llety a rhai atyniadau wedi cau.

***Siart 5: Nifer yr ymwelwyr â Bwrdeistref Sirol Conwy yn ôl mis (2018)***
Ffynhonnell: STEAM 2018




Mae cyfraddau nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ar gyfer Sir Conwy yn dangos tuedd dymhorol debyg gyda gostyngiad yn y nifer dros fisoedd yr haf a chynnydd yn y nifer dros y gaeaf. Mae’n debygol bod y duedd hon yn adlewyrchu natur dymhorol a dibyniaeth y farchnad swyddi leol ar y fasnach dwristiaeth.

***Siart 6: cyfradd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra, Ionawr 2009 – Medi 2019***
Ffynhonnell: Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau, ONS, (NOMIS)



## Lefelau deiliadaeth

Nid yw cyfraddau deiliadaeth dibynadwy ar gael ar hyn o bryd ar lefel yr awdurdod lleol ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithio gyda darparwyr llety lleol a chymdeithasau lletygarwch i wella hyn yn y dyfodol. Mae data ar gael ar lefel genedlaethol ar gyfer Cymru drwy arolwg deiliadaeth Croeso Cymru, a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

### Gwestai


Y gyfradd feddiannaeth ystafelloedd ar gyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru yn 2017 oedd 67%, sydd wedi aros yn gyson dros y 3 blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae'r cyfraddau meddiannaeth cyfartalog blynyddol yn y sector gwestai yn parhau i aros ar eu lefelau uchaf a welwyd yn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae lefelau deiliadaeth ystafelloedd yn dangos tuedd dymhorol, gan gyrraedd uchafbwynt o 79% ym mis Gorffennaf ac Awst a gostwng i 48% ym mis Ionawr. Mae gwestai mwy yn dangos lefelau deiliadaeth sylweddol uwch na'r gwestai llai ar draws Cymru. Mae gwestai gyda 101+ o ystafelloedd yn adrodd cyfraddau deiliadaeth cyfartalog blynyddol o 79% ac mae gwestai llai gyda 4-10 ystafell yn adrodd cyfraddau deiliadaeth o 50%.

***Tabl 6: Deiliadaeth ystafelloedd mewn gwestai ar gyfartaledd yn ôl Rhanbarth yng Nghymru ar gyfer 2008-2017***
Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017


| Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** |
| Gogledd | 57 | 62 | 61 | 61 | 62 | 63 | 66 | 68 | 68 | 67 |
| Canolbarth | 50 | 49 | 49 | 54 | 54 | 52 | 52 | 52 | 53 | 54 |
| De Ddwyrain | 66 | 62 | 62 | 61 | 61 | 66 | 71 | 73 | 72 | 73 |
| De Orllewin | 56 | 53 | 54 | 51 | 50 | 50 | 64 | 64 | 60 | 63 |
| ***CYFANSWM CYMRU*** | ***58*** | ***58*** | ***59*** | ***59*** | ***59*** | ***61*** | ***66*** | ***67*** | ***67*** | ***67*** |

***Siart 7: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd a gwelyau ar gyfer Gwestai yng Nghymru yn ôl mis***
Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017



***Siart 8: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd a gwelyau mewn Gwestai yng Nghymru yn ôl maint y gwesty***

Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017




**Tai llety/gwely a brecwast**

Mae cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd cyfartalog blynyddol ar gyfer Tai llety/Gwely a brecwast yng Ngogledd Cymru wedi aros ar 40% am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cyfraddau deiliadaeth ar gyfer Tai llety/Gwely a brecwast yng Nghymru yn dangos tuedd dymhorol sylweddol sy'n dod i uchafbwynt ar 57% ym mis Awst a gostwng i 16% ym mis Rhagfyr. Mae nifer o ddarparwyr yn y sector hwn yn cau dros fisoedd y gaeaf.


***Tabl 7: Nifer cyfartalog deiliadaeth ystafelloedd Tai llety/Gwely a brecwast yn ôl Rhanbarth yng Nghymru ar gyfer 2008-2017***

Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017

| Defnydd ystafelloedd | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** |
| Gogledd | 35 | 39 | 39 | 35 | 31 | 35 | 35 | 35 | 40 | 40 |
| Canolbarth | 29 | 33 | 32 | 34 | 32 | 32 | 27 | 32 | 29 | 26 |
| De Ddwyrain | 43 | 40 | 38 | 25 | 31 | 28 | 32 | 42 | 40 | 35 |
| De Orllewin | 43 | 39 | 39 | 37 | 40 | 43 | 40 | 43 | 47 | 48 |
| ***Cymru gyfan*** | ***37*** | ***38*** | ***37*** | ***34*** | ***34*** | ***35*** | ***33*** | ***37*** | ***39*** | ***38*** |

***Siart 9: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd a gwelyau ar gyfer Tai llety/Gwely a brecwast yng Nghymru yn ôl mis***

Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017




Mae nifer cyfartalog deiliadaeth ystafelloedd ar gyfer Tai llety/Gwely a brecwast yng Nghymru yn cynyddu ar sail y sefydliad. Roedd Tai llety/Gwely a brecwast llai gydag 1-3 ystafell yn dangos cyfradd ddeiliadaeth ystafelloedd o 28%, ac roedd y rhai â 4-10 ystafell yn dangos cyfradd ddeiliadaeth ystafelloedd o 40%.

Mae Tai llety/Gwely a brecwast hefyd fel pe baent yn dangos cyfraddau deiliadaeth uwch gyda gradd sêr uwch. Adroddodd darparwyr 5 seren gyfraddau deiliadaeth o 48%, ac adroddodd darparwyr tair seren gyfraddau o 38%.


***Siart 10: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd a gwelyau ar gyfer Tai llety/Gwely a brecwast yng Nghymru yn ôl maint***

Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017




***Siart 11: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd a gwelyau ar gyfer Tai llety/Gwely a brecwast yng Nghymru yn ôl gradd sêr***


Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017




**Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar**

Yn 2017, cyfradd deiliadaeth cyfartalog blynyddol unedau hunanddarpar ar gyfer yr holl fythynnod a rhandai yng Ngogledd Cymru oedd 61%, y gyfradd uchaf yn y naw mlynedd flaenorol. Wrth aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol, gwnaeth llety hunanddarpar barhau i ddangos lefelau deiliadaeth uchel yn ystod cyfnodau prysur. Gwelwyd lefelau deiliadaeth uchaf ym mis Awst, sef 92%, a mis Rhagfyr (38%) oedd yr isaf.

***Siart 12: Cyfraddau deiliadaeth unedau Bythynnod a Rhandai yng Nghymru yn ôl Rhanbarth***
Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017




***Tabl 8: Deiliadaeth cyfartalog unedau Bythynnod a Rhandai yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2009-2017 yn ôl mis***
Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017


| Defnydd Cyfartalog Unedau | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** |
| Ionawr | 29 | 23 | 33 | 35 | 30 | 28 | 40 | 25 | 41 |
| Chwefror | 38 | 44 | 45 | 40 | 37 | 54 | 46 | 36 | 55 |
| Mawrth | 38 | 42 | 42 | 45 | 52 | 50 | 42 | 50 | 42 |
| Ebrill | 58 | 61 | 63 | 58 | 47 | 62 | 58 | 55 | 67 |
| Mai | 66 | 67 | 69 | 53 | 67 | 66 | 66 | 62 | 59 |
| Mehefin | 70 | 69 | 69 | 69 | 61 | 61 | 59 | 68 | 74 |
| Gorffennaf | 81 | 74 | 73 | 68 | 73 | 78 | 80 | 80 | 80 |
| Awst | 89 | 85 | 85 | 83 | 88 | 92 | 91 | 91 | 92 |
| Medi | 77 | 75 | 75 | 68 | 72 | 69 | 73 | 69 | 79 |
| Hydref | 60 | 58 | 60 | 55 | 61 | 60 | 62 | 45 | 66 |
| Tachwedd | 38 | 36 | 35 | 41 | 38 | 42 | 39 | 42 | 41 |
| Rhagfyr | 44 | 37 | 33 | 47 | 35 | 53 | 27 | 35 | 38 |
| ***Cyf. Mai - Hydref*** | ***74*** | ***71*** | ***72*** | ***66*** | ***71*** | ***71*** | ***72*** | ***69*** | ***75*** |
| ***Cyf. blynyddol*** | ***57*** | ***56*** | ***57*** | ***56*** | ***55*** | ***59*** | ***57*** | ***54*** | ***61*** |

**Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla**

Mae'r sampl ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla yn fach a dim ond ar y lefel genedlaethol ar gyfer Cymru mae data ar gael. Mae'r gyfradd a adroddwyd yn 2017, sef 40%, yn adlewyrchiad teg o'r cyfraddau deiliadaeth a brofwyd a adroddir yn yr arolwg hwn.

***Siart 13: Cyfraddau deiliadaeth lleiniau Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla yng Nghymru 2009-2017***

Ffynhonnell: Arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017




**Cartrefi Gwyliau Carafán**


Mae’r maint sampl bach yn arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru ar gyfer y sector hwn yn golygu ei bod yn bosibl nad yw’n cynrychioli’r diwydiant yn iawn. Ni chaiff data ei gyhoeddi ar gyfer Gogledd Cymru oherwydd y maint sampl bach ac mae data ar lefel Cymru yn dangos amrywiadau sylweddol o’r naill flwyddyn i’r llall.

Oherwydd y problemau hyn gyda’r data, ni chaiff ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

### Atyniadau allweddol


Mae'r sir yn falch o fod yn gartref i nifer fawr o atyniadau i ymwelwyr. Mae rhai o'r atyniadau mwy adnabyddus wedi'u cynnwys ar y map isod. Wrth gwrs, nid yw'r rhestr hon yn cynnwys y mannau agored, arfordir, mynyddoedd, llynnoedd ac afonydd helaeth sydd yn atyniadau allweddol i ymwelwyr ynddynt eu hunain.

***Map 2: Dangos atyniadau allweddol***



Er nad yw'n ddarlun cyflawn, mae'r map a ganlyn yn dangos sut mae nifer yr ymwelwyr i'r atyniadau hyn wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n dangos mannau problemus clir o amgylch Llandudno a Bae Cinmel, gyda man problemus eilaidd o amgylch Conwy a man trydyddol yn dilyn Dyffryn Conwy i Fetws-y-coed ac un o amgylch Llyn Brenig.

***Map 3: Map mannau problemus yn dangos crynhoad o ymwelwyr i atyniadau***
Ffynhonnell: Cronfa ddata atyniadau Conwy 2019



© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023380
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

## Sefydliadau bwyd


Mae'r fasnach dwristiaeth hefyd yn cefnogi nifer fawr o sefydliadau bwyd. Mae rhai ohonynt yn atyniadau i ymwelwyr ynddynt eu hunain ac yn rhan o apêl yr ardal i dwristiaid. Mae bwyd a llety gyda'i gilydd yn darparu mwy na 7,000 o swyddi a hwn yw'r sector cyflogaeth mwyaf ond un ar ôl gweinyddiaeth gyhoeddus ac iechyd.

Mae'r crynhoad mwyaf o gaffis a bwytai yn nhrefi Llandudno (87), Llandrillo-yn-Rhos (20), Bae Colwyn (27) a Chonwy (21). Mae'r nifer fawr o welyau yn y Dwyrain wedi'u cefnogi gan nifer gymharol fach o sefydliadau bwyd o fewn ffiniau Sir Conwy.

***Tabl 9: Nifer y sefydliadau bwyd yn ôl Is-Ardal Strategol***
Ffynhonnell: Data trwyddedu bwyd CBSC 2019


| | Gogledd | Dwyrain | Canolog | Gorllewin | De | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caffis | 54 | 36 | 30 | 38 | 27 | 185 |
| Bwytai | 35 | 5 | 15 | 13 | 9 | 77 |
| **Cyfanswm** | **89** | **41** | **45** | **51** | **36** | **262** |

***Map 4: dangos lleoliadau caffis a bwytai yn Sir Conwy***




© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023380
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

***Map 5: dangos atyniadau allweddol a darparwyr llety***




## Darparwyr llety yn ôl Is-Ardal Strategol

Mae'r pum ardal strategol yn wahanol iawn o ran nifer a math y llety sydd ar gael.


- **Gogledd** – yn cynnwys 70% o'r llety â gwasanaeth gyda mwy na 6,000 o welyau â gwasanaeth.
- **Dwyrain** – yn cynnwys dau draean o lety carafán a gwersylla gyda mwy na 40,000 o welyau wedi'u darparu gan nifer gymharol fach o ddarparwyr. Dim ond ychydig o lety gwyliau hunanddarpar.
- **De** – mae 60% o'r gwelyau ar safleoedd carafán a gwersylla, fodd bynnag bu cynnydd cyson yn nifer y llety gwyliau hunanddarpar. Mae 40% o'r holl welyau hunanddarpar yn Sir Conwy yn Ne'r sir.

- **Gorllewin** – mae 85% o'r gwelyau ar safleoedd carafán a gwersylla, ond mae mwy na 200 llety gwyliau hunanddarpar yn y Gorllewin, yn benodol wedi'u crynhoi o amgylch tref Conwy.
- **Canolog** – roedd Bae Colwyn yn gyrchfan glan y môr brysur ar un adeg, ond dim ond nifer cymharol fach o ddarparwyr llety sydd yno bellach o gymharu.

***Tabl 10: Nifer y darparwyr llety yn ôl is-ardal Strategol***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019

| | Â gwasanaeth | Hunanddarpar | Carafán a Gwersylla | Byncws | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **307** | **795** | **191** | **16** | **1,309** |
| Gogledd | 163 | 159 | 1 | 1 | 324 |
| Dwyrain | 5 | 65 | 63 | | 133 |
| Canolog | 13 | 62 | 13 | | 88 |
| Gorllewin | 41 | 204 | 40 | | 285 |
| De | 85 | 305 | 74 | 15 | 479 |


***Siart 14: Nifer y darparwyr llety yn ôl is-ardal Strategol***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019





***Tabl 11: Nifer y gwelyau sydd ar gael ym mhob is-ardal Strategol***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019

| | Â gwasanaeth | Hunanddarpar | Carafán a Gwersylla | Byncws | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **8,778** | **4,148** | **60,300** | **470** | **73,696** |
| Gogledd | 6,218 | 784 | 144 | 44 | 7,190 |
| Dwyrain | 118 | 381 | 40,376 | | 40,875 |
| Canolog | 133 | 331 | 2,774 | | 3,238 |
| Gorllewin | 888 | 981 | 12,067 | | 13,936 |
| De | 1,421 | 1,671 | 4,939 | 426 | 8,457 |

***Tabl 15: Nifer y gwelyau sydd ar gael ym mhob is-ardal Strategol***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019




***Map 6: Map mannau problemus sy'n dangos crynhoad darparwyr llety a gwelyau sydd ar gael ym mhob ardal gymunedol***
Ffynhonnell: Cronfa ddata llety Conwy 2019




Mae crynhoad clir o ddarparwyr llety yn Llandudno a Chonwy. Fodd bynnag mae'r map yn newid pan fyddwch yn ystyried argaeledd gwelyau, gyda'r man broblemus yn ymestyn tua Penmaenmawr a man broblemus newydd yn dod i'r amlwg i gynnwys y parciau carafán yn y Dwyrain.

## Adran 5: Proffil ymwelwyr

### Ffynhonnell ddata

Mae'r adran hon yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau arolygon Twristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ar gyfer 2016. Dewiswyd y flwyddyn hon oherwydd ei fod yn cynnwys maint sampl da ar draws y tymor twristiaeth cyfan.

Daw'r data o arolwg wyneb i wyneb a gynhaliwyd gan staff a gyflogir gan CBSC gydag ymwelwyr â chyrchfannau Llandudno, tref Conwy, Betws-y-coed a Bae Colwyn. Holwyd cyfanswm o 3,429 o bobl ar gyfer yr arolwg, ac roedd 2,078 ohonynt yn ymwelwyr â'r ardal. Gofynnwyd i ymwelwyr yn unig lenwi'r arolwg llawn.

***Tabl 12: Dangos lle cynhaliwyd yr arolygon ymwelwyr***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016

| Cyrchfan | Nifer yr ymwelwyr a arolygwyd |
|---|---|
| Betws-y-coed | 667 |
| Bae Colwyn | 546 |
| Conwy | 368 |
| Llandudno | 497 |
| **Cyfanswm** | **2078** |

### O le mae'r ymwelwyr yn dod?

Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn i ymwelwyr o le roeddent yn dod. Mae'r arolwg yn awgrymu bod tref Conwy yn denu cyfran uchel o ymwelwyr o dramor, tra bo'r mwyafrif o ymwelwyr i Fae Colwyn yn dod o Gymru a Gogledd-Orllewin Lloegr.

***Tabl 13: Dangos o le mae ymwelwyr yn dod ar gyfer pob un o'r cyrchfannau***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016

**Conwy**

| Rhanbarth cartref | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gogledd-Orllewin Lloegr | 102 | 28% |
| Cymru | 36 | 10% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 35 | 10% |
| Swydd Efrog | 14 | 4% |
| De-Ddwyrain Lloegr | 11 | 3% |
| Arall yn y DU | 15 | 4% |
| Rhyngwladol | 155 | 42% |

**Bae Colwyn**

| Rhanbarth cartref | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gogledd-Orllewin Lloegr | 283 | 52% |
| Cymru | 199 | 36% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 37 | 7% |
| Swydd Efrog | 6 | 1% |
| Yr Alban | 5 | 1% |
| Arall yn y DU | 4 | 1% |
| Rhyngwladol | 12 | 2% |


**Llandudno**

| Rhanbarth cartref | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gogledd-Orllewin Lloegr | 154 | 31% |
| Cymru | 122 | 25% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 102 | 21% |
| Yr Alban | 29 | 6% |
| De-Ddwyrain Lloegr | 21 | 4% |
| Arall yn y DU | 36 | 7% |
| Rhyngwladol | 32 | 6% |

**Betws-y-coed**

| Rhanbarth cartref | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gogledd-Orllewin Lloegr | 299 | 45% |
| Cymru | 111 | 17% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 99 | 15% |
| Swydd Efrog | 19 | 3% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 18 | 3% |
| Arall yn y DU | 48 | 8% |
| Rhyngwladol | 72 | 11% |


***Siart 16: Dangos o le mae ymwelwyr yn dod***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016




**Ydyn nhw'n ymwelwyr dydd neu'n ymwelwyr a oedd yn aros dros nos?**

Mae pob cyrchfan yn denu cyfran uchel o ymwelwyr dydd, ond mae Bae Colwyn yn sefyll allan yn benodol gyda dim ond 7% o ymwelwyr yn aros dros nos.

***Siart 17: Dangos pa gyfran o ymwelwyr i bob cyrchfan a oedd yn aros dros nos***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016



***Tabl 14: Ydyn nhw'n ymwelwyr dydd neu'n ymwelwyr a oedd yn aros dros nos?***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016

| Math o arhosiad | Conwy | Bae Colwyn | Llandudno | Betws-y-coed |
|---|---|---|---|---|
| Ymwelydd dydd | 48% | 93% | 57% | 69% |
| Aros mewn llety am dâl | 45% | 5% | 34% | 28% |
| Aros gyda ffrindiau neu berthnasau | 3% | 0% | 6% | 0% |
| Aros mewn llety gwyliau eu hunain | 4% | 1% | 1% | 2% |
| Arall | 1% | 0% | 1% | 0% |
| Hyd cyfartalog arhosiad (diwrnodau)* | 3.7 | 4.9 | 3.9 | 4.3 |


*Mae hyd cyfartalog yr arhosiad ar gyfer rhai a ddywedodd eu bod yn aros dros nos yn unig. Nid yw'n cynnwys ymwelwyr dydd.

**Ydyn nhw'n ymwelwyr dychwel?**

Mae Betws-y-coed, Bae Colwyn a Llandudno i gyd yn denu cyfran uchel o ymwelwyr dychwel tra bod gan Gonwy gyfran is, yn unol â'r ganran uchel o ymwelwyr rhyngwladol.

***Tabl 15: Ydyn nhw'n ymwelwyr dychwel?***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016

| Lleoliad | Ydyn | Nac ydyn |
|---|---|---|
| Betws-y-coed | 87% | 13% |
| Bae Colwyn | 98% | 2% |
| Conwy | 60% | 40% |
| Llandudno | 84% | 16% |




**Beth sy'n denu pobl i'r ardal?**

Gofynnwyd i ymwelwyr enwi'r pethau wnaeth eu denu i fynd i'r gyrchfan honno. Roedd modd iddynt ddewis cynifer ag a hoffent o restr ac awgrymu opsiynau eraill nad oeddent ar y rhestr honno.


***Tabl 16: Beth sy'n denu ymwelwyr i'r ardal?***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016

| Lleoliad | Gweithgareddau awyr agored | Tirlun / golygfeydd | Traethau | Hanes / diwylliant | Digwyddiad | Busnes | Teulu / ffrindiau | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Betws-y-coed | 18% | 98% | 0% | 6% | 0% | 0% | 0% | 2% |
| Bae Colwyn | 13% | 39% | 79% | 1% | 1% | 1% | 0% | 10% |
| Conwy | 5% | 92% | 10% | 43% | 1% | 2% | 4% | 2% |
| Llandudno | 12% | 73% | 38% | 9% | 6% | 2% | 10% | 7% |

Tirlun, golygfeydd a thraethau yw'r pethau allweddol sy'n denu pobl i bob un o'r cyrchfannau hyn. Mae Conwy gyda'r castell, waliau ac adeiladau hanesyddol yn sefyll allan gyda 43% yn ymweld â'r gyrchfan oherwydd ei hanes a'i diwylliant.

O'r ymwelwyr a ddywedodd fod rheswm arall wedi'u denu, soniodd y mwyafrif am atyniad penodol ac yn Llandudno, roedd siopa yn rheswm allweddol a nodwyd.


***Siart 18: Dangos beth sy'n denu ymwelwyr i bob un o'r cyrchfannau a arolygwyd***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016




## Proffil ymwelwyr syml

Gofynnwyd i bobl a oedd yn cwblhau'r arolwg ddarparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am eu hunain a'u grŵp. Roedd Bae Colwyn yn denu cyfran uwch o deuluoedd gyda phlant ifanc gyda datblygiad y traeth, ond roedd 24% i 26% o ymwelwyr â Chonwy a Llandudno yn deuluoedd gyda phlant ifanc hefyd, sy'n bwysig iawn i'w nodi.

***Siart 19: Dangos y math o bobl oedd yn ymweld â phob cyrchfan***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016




***Tabl 17: Dangos y math o bobl oedd yn ymweld â phob cyrchfan***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016

| Lleoliad | Cwpl | Teulu gyda phlant hŷn (12 i 17 oed) | Teulu gyda phlant ifanc (hyd at 12 oed) | Grŵp / clwb | Sengl |
|---|---|---|---|---|---|
| Betws-y-coed | 58% | 4% | 14% | 4% | 20% |
| Bae Colwyn | 43% | 5% | 38% | 1% | 13% |
| Conwy | 54% | 6% | 26% | 3% | 11% |
| Llandudno | 45% | 4% | 24% | 7% | 20% |

Pan fyddwch yn ystyried oedran y rhai oedd yn llenwi'r arolwg, mae'n deg dweud bod gwasgariad eithaf da ar draws pob ystod oedran. Mae Llandudno yn denu cyfran uwch o ymwelwyr wedi ymddeol na'r cyrchfannau eraill.

***Siart 20: Dangos proffil oedran pobl a arolygwyd***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016




***Tabl 18: Dangos proffil oedran pobl a arolygwyd***
Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr CBSC 2016

| Lleoliad | 0-11 oed | 12-17 oed | 18-24 oed | 25-34 oed | 35-44 oed | 45-54 oed | 55-64 oed | 65+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Betws-y-coed | 0% | 1% | 2% | 20% | 17% | 13% | 15% | 31% |
| Bae Colwyn | 1% | 0% | 1% | 24% | 16% | 13% | 19% | 26% |
| Conwy | 0% | 1% | 3% | 19% | 19% | 16% | 18% | 23% |
| Llandudno | 1% | 2% | 4% | 16% | 18% | 13% | 9% | 37% |

## Adborth gan ymwelwyr

Mae'r canlynol yn cynnwys crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn yr arolygon ymwelwyr ar gyfer 2016 i 2018.

**Conwy**

Soniwyd am y castell, y waliau a'r hanes fel prif agwedd gadarnhaol y gyrchfan, gyda nifer fawr yn dod er mwyn hanes a diwylliant y dref. Mae'r siopau, caffis a bwytai yn boblogaidd hefyd. Soniodd y rhai â phlant am lannau'r cei yn benodol gan ddweud bod llawer i'w wneud yn y dref i ddifyrru'r plant.

Yr agwedd negyddol ysgubol o bellffordd i'r gyrchfan oedd diffyg mannau parcio ac roedd nifer fawr yn dweud eu bod wedi'i chael yn anodd parcio yn nhref Conwy a'r cyffiniau.

**Llandudno**

Roedd amrywiaeth o sylwadau cadarnhaol am Llandudno fel cyrchfan i dwristiaid. Ar frig y rhestr mae'r Promenâd, y Pier, y Gogarth a thraethau gyda'u golygfeydd gwych. Mae ymwelwyr yn hoffi'r ffaith fod y promenâd yn wastad er mwyn cerdded ar ei hyd a bod yr ardal gyfan yn lân a hygyrch. Soniodd cyfran fawr o ymwelwyr am y siopau fel agwedd gadarnhaol ar y dref ynghyd â'r Caffis a'r bwytai a chanmolwyd y staff am fod yn gyfeillgar. Soniodd nifer fach o ymwelwyr am Venue Cymru fel atyniad allweddol i'r dref gyda'r theatr a'r ganolfan gynadledda.

Gormod o wylanod oedd prif agwedd negyddol y gyrchfan, ynghyd â pharcio. Roedd nifer o bryderon am ddiffyg gweithgareddau neu atyniadau pan fydd hi'n bwrw glaw hefyd. Awgrymodd nifer fach o ymwelwyr fod angen gwella arwyddion o amgylch y dref ac roedd rhai o'r teuluoedd gyda phlant hŷn yn teimlo bod angen rhagor o bethau ar gael i'w difyrru. Roedd teuluoedd gyda phlant iau fel pe baent yn fwy tebygol o ddweud bod digonedd o bethau iddynt eu gwneud.

**Bae Colwyn**

Soniodd pob un o'r ymwelwyr am ddatblygiad y traeth fel prif agwedd gadarnhaol y gyrchfan gyda'r promenâd hir a gwastad. Dywedodd yr ymwelwyr fod yr ardal yn dda iawn i blant ac roeddent yn hoffi'r ffaith ei bod yn darparu amgylchedd diogel. Roedd yr ymwelwyr yn gadarnhaol iawn am y Bistro a'r cyfleusterau chwaraeon dŵr hefyd.

Ar adeg cynnal yr arolwg, roedd gwaith mawr i'w wneud o hyd i gwblhau rhan o'r traeth a'r promenâd a hwn oedd prif gŵyn yr ymwelwyr. Roedd rhai yn teimlo bod angen mwy ar ganol y dref i'w gynnig i ymwelwyr.

## Adran 5: Dyfodol twristiaeth?

**Poblogaeth sy'n heneiddio**

Mae'n bosibl y gallai twristiaeth fod yn ddiwydiant a fydd yn elwa o boblogaeth sy'n heneiddio yn y DU gyda'r henoed yn dewis gwyliau byrrach yn y DU, yn hytrach na theithio dramor. Os felly, mae angen i'r diwydiant sicrhau ei fod yn gallu darparu ar gyfer anghenion pobl hŷn, er enghraifft pobl nad ydynt yn gallu symud gystal, yn ogystal â'r farchnad deithio aml-genhedlaeth oherwydd cost gynyddol gofal plant.

**Canolbwyntio ar brofiadau**

Mae canolbwynt teithio yn newid ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar brofiadau a dilysrwydd, gyda mwy o werth yn cael ei roi ar adloniant a hamdden gyda'u teuluoedd. Bu symudiad clir hefyd o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn ystod y 10-15 mlynedd diwethaf wrth i lawer o bobl wneud newidiadau o ran eu patrymau gwaith er mwyn bodloni gofynion eraill ar amser yn well. Mae rhagor o amser yn cael ei roi i hamdden, ar gyfer enillion personol ac ar gyfer rhannu gyda theulu a ffrindiau. Mae mwyfwy o bwyslais i ymwelwyr ar brofiad "lleol" clir hefyd sy'n gysylltiedig â'r hanes a'r diwylliant lleol.

**Cyflawniadau**

Disgwylir i'r sector gweithgareddau ac antur barhau i dyfu wrth i bobl roi rhagor o bwysigrwydd ar gyflawniadau personol. Yn ogystal ag atyniadau penodol fel Zip World, Adventure Parc Snowdonia a Go Below, mae cynnydd yn y DU o ran presenoldeb mewn digwyddiadau fel rasys 10k, triathlonau a rasys mwd.

**Ymwybyddiaeth amgylcheddol**

Mae gan genedlaethau'r dyfodol lefel uwch o ymwybyddiaeth amgylcheddol. Mae ffafriaeth gynyddol at lety ac atyniadau sy'n gallu cynnig pecyn gwyrdd cynaliadwy, fel carbon isel, ailgylchu neu dim gwastraff, yn ogystal â chydymdeimlad tuag at yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Mae disgwyliad cynyddol am drafnidiaeth gynaliadwy hefyd.

**Llety cost is**

Mae'n bosibl y bydd grym gwario'r genhedlaeth nesaf yn fwy cyfyng o ganlyniad i economi'r DU dros y blynyddoedd diweddar, gyda llawer yn profi dyled cynyddol a phrisiau tai uwch. Mae'r galw yn symud at lety cost is ac yn benodol llety hunanddarpar fel Air BnB neu ystafelloedd llai am bris rhatach.

**Technoleg**

Mae technoleg yn hanfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf, gyda'r mwyafrif yn trefnu llety a gweithgareddau ar-lein gan ddisgwyl WiFi, a WiFi am ddim fel arfer, gan ddarparwyr llety yn ogystal â Chaffis, Llyfrgelloedd lleol a mannau cyhoeddus. Mae technoleg yn chwarae rôl sylfaenol o ran sut maen nhw'n cael mynediad i wahanol gynnyrch a gwasanaethau twristiaeth, eu llywio a rhyngweithio â nhw.

**Gadael yr UE**

**Cyfleoedd**

- Denu rhagor o dwristiaid o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE
- Mae punt wannach yn golygu ei bod yn rhatach i dwristiaid ymweld â ni
- Cynnydd o ran Gwyliau Gartref

**Heriau**

- Rhagor o gymhlethdod i dwristiaid sy'n teithio ar draws ffin y DU.
- Defnyddir y DU fel "porth" i Ewrop weithiau.
- Colli cyllid gan yr UE ar gyfer twristiaeth.
- Mae llawer o brosesau diogelu'r cwsmer yn destun rheoliadau'r UE.
- Gallai olygu cyfyngiadau ar deithiau awyr rhwng y DU a'r UE.
- Dibyniaeth twristiaeth y DU ar gyflogi pobl o wledydd eraill yr UE.